

Rhifyn 230

Pris £1

Mis Ionawr 2021



Parc Penallta

Blwyddyn Newydd Dda

De Clare Gardens!!!

Mae cynghorwyr cymunedol wedi condemnio cynlluniau i enwi datblygiad tai newydd gerllaw ystad Hendredenni yng Nghaerffili. Bwriad Redrow yw galw'r datblygiad o ryw 200 o dai yn "De Clare Gardens"!

Fel canlyniad mae cynghorwyr Cyngor Cymunedol Penyrheol, Enau'r-glyn a Threcenydd wedi penderfynu ysgrifennu at y datblygwyr gan egluro iddynt ddewis enw dyn a oedd wedi adeiladu castell y dref er mwyn "cadw'r Cymry lawr".



Cytunodd y Cyngor gysylltu â Redrow gan eu bod yn gweld yr enw hwn yn sarhad ar yr ymgyrchwyr a frwydrodd yn erbyn Redrow pan ddatgelwyd eu bwriad i ymestyn ystad Hendredenni. Medda'r Cyngorydd Whittle fod hyn yn "rhoi'r argraff fod Redrow yn ddirmygus o farn y cyhoedd lleol." Hefyd ei fod "yn synnu'n fawr fod adeiladwyr tai, â'u pencadlys yng Nghymru, yn dangos y fath diffyg sensitifrwydd. Oni wnaeth rhywun yn Redrow rywfaint o ymchwilio am De Clare?"

Mae'r cyngor cymunedol felly am i'r cwmni adeiladu wneud i ffwrdd â'r enw arfaethedig ac i drafod enw mwy addas, gyda'r gymuned leol, a fyddai'n adlewyrchu'r Gymru fodern yn well.

Erbyn hyn mae'r hinsawdd wleidyddol boblogaidd wedi newid yn sgil y digwyddiad yn America pan laddwyd y gŵr croenddu George Floyd gan blismon yn gwasgu ar ei wddf. Arweiniodd hyn at bobol yn protestio am enwogion â record o gamdrin hiliol yn cael eu coffáu drwy godi cofgolofnau iddynt. Ffurfiwyd nifer o grwpiau protest ac ymatebodd awdurdodau yng Nghymru a thu hwnt drwy amau doethineb anrhydeddu pobol a oedd iddynt gefndir amheus. Gwelwyd cerflun o Colston yn cael ei daflu i mewn i'r doc ac yntau wedi'i anrhydeddu am roi llawer o arian i bobol Bryste. Codir amheuaeth nawr a ddylid clodfori pobol fel yr Arglwydd Penrhyn a fu'n camdrin ei weithwyr yn chwareli llechi Bethesda a'r cylch. A beth am Picton wedi iddi ddod i'r amlwg ei fod wedi trin caethweision mewn modd mor greulon? Ond cawsom wybod ychydig cyn y Nadolig i gyngor Caerfyrddin benderfynu na ddylid symud y gofgolofn 2 fetr o uchder sydd yn dathlu ei enwogrwydd. A bod yn deg â'r cyngor, cynhaliwyd arolwg barn gyhoeddus cyn penderfynu gadael y golofn lle mae.

Byddai De Clare, wrth gwrs, ddim yn rhan o wrthdystiad BLM (*Black Lives Matter*) ond gwyddom o ddarllen hanes Ifor Bach a Llywelyn Bren o'n hardal ni, mor greulon y deliai De Clare â'i wrthwynebwyr wedi iddo eu trechu. Prin ein bod yn briodol dathlu bywyd gŵyr o'r fath.

Beth, felly, sydd i'w wneud am hyn yn enw cyfiawnder? A ddylid difetha'r cofgolofnau, eu symud i fannau llai amlwg neu a ddylid gosod plac yn eu hymyl yn cynnig cernlun cytbwys o'u cymeriad? Bu sôn hefyd am newid enwau strydoedd fel Stryd Crawshay, meistr creulon iawn ym Merthyr. Ond beth a ddywed trigolion Teras Picton yng Nghaerfyrddin? Fydden nhw'n awyddus i weld ailenwi eu stryd? Y broblem, wrth gwrs, yw bod trigolion y strydoedd hyn wedi bod yn defnyddio'u cyfeiriadau ers blynnyddoedd a gallai newid yr enw achosi cryn anghyfleustra iddynt.

Wel, os ydy hi'n lletchwith newid enw sydd wedi'i sefydlu, efallai ei bod yn fwy pwysig fyth sicrhau, yn y lle cyntaf, na fabwysiadir enwau pobl a chanddynt hanes amheus – fel De Clare yng Nghaerffili.

Y Golygydd

BYSIAU BACH Y WLAD



Treuliais dair haf hapus iawn fel *conductor* ar fysiau South Wales Transport tra yn y coleg. Wedi dysgu'r gwaith yn Abertawe - ac roedd angen tipyn o wybodaeth i gael trwydded - gweithio allan o orsaf bysiau Llanelli.

Roedd y shifft gyntaf yn gadael Llanelli tua hanner awr wedi pedwar y bore ac yn mynd â gweithwyr i waith dur Porth Talbot; a'r olaf yn cyrraedd Llanelli o Abertawe ymhell wedi hanner nos. Ac wedyn roedd angen ugain munud neu hanner awr o "falansio" i gael yr arian yn iawn.

Y daith o Lanelli i Abertawe oedd yr un brysraf, yn cymryd awr bob ffordd; ond fy hoff daith oedd trip o Lanelli trwy Gydweli a Thrimsaran i Rydaman, taith oedd yn cymryd pum awr. Wedi bod i Rydaman, un trip i Abertawe, ac roedd y shifft drosodd.

Un peth wna i ddim anghofio oedd gweld glowyr yn dod allan o lofa Cynheidre, wedi cael cawod, ond roedd llwch y glo yn dal o gwmpas eu llygaid fel mascara.

Wedi gadael y Coleg a gweithio yn Lloegr a'r Alban am gyfnod, des i fyw yng Nghaerdydd. Yr haf cyntaf, penderfynais fynd ar daith fawreddog. Shwd? Ar fŷs wrth gwrs! Gadawodd wyth o ni a gyrrwr/arweinydd Orsaf Victoria yn Llundain am bump o'r gloch prynhawn dydd Gwener a chyrraedd yn ôl ar nos Sul dair wythnos ac ychydig o ddyddiau yn hwyrach. Yn y cyfamser roeddem wedi teithio trwy Ffrainc, Gwlad Belg, Yr Almaen, Awstria, Iwgoslafia, Bwlgaria a Thwrci i gyrraedd Istanbul. Wedyn croesi'r Bosfforws mewn cwch, y dyddiau cyn codi'r bont gyntaf dros y Bosfforws, ac i lawr i Troya. Yna yn ôl drwy Wlad Groeg, arfordir Dalmatia a Fenis.

Ers hynny, rwy wedi teithio i Hwngari, Tsiecoslofacia a Gwlad Pwyl ar y bŷs. Yn fwy diweddar rwy wedi teithio tipyn yn Ewrop a Gogledd Affrica ar fysiau. Roedd y wraig yn gwrthod hedfan a does dim llawer o synnwyr mewn hurio car i un person. A dweud y gwir mae'n well gen i deithio ar fŷs, mae nhw'n uwch am un peth ac mae'n bosib canolbwyntio ar y wlad.

Hedfan i Malaga, dal bŷs i Granada, ymlaen i Sevilla a Cordoba ac yn ôl i Malaga. Rwy wedi teithio arfordir gogleddol Creta mewn bŷs ond efallai teithio yn yr Aifft oedd y profiad mwyaf syfrdanol. Doedd y bobl ar y bŷs o Luxor i Aswan ddim yn deall beth oedd tramorwr "cyfoethog" yn gwneud yn teithio ar eu bysiau bach nhw.

Ychydig o flynyddoedd yn ôl, tra'n clirio tŷ mam a nhad, des ar draws y llun uchod. Roedd un o'n hen deidiau, John Griffiths, yn ŵr busnes yn Llanelli ddiwedd y 19eg a dechrau'r 20fed ganrif. Roedd e'n cadw siop feiciau ger gorsaf drenau Llanelli, ac y fe oedd y dyn cyntaf i ddod â char i Lanelli. Prynodd "Tin Lizzie" oddi wrth Henry Ford a'i werthu i Sam Eynon, Trimsaran. Roedd Sam Eynon yn rhedeg teithwyr o Drimsaran i Lanelli yn y Tin Lizzie a dyna shwd dechreuodd cwmni bysiau Eynon's Trimsaran.

Felly, mae bysus bach y wlad yn fy ngwaed!.

Allan Cook

Garejis Bach y Wlad

Gellir gweld y garej sydd yn y llun ym mhen uchaf pentref Senghennydd. Gyrrwch heibio i'r Ardd Goffa Genedlaethol ar y chwith a dewch, o fewn canllath, i gyffordd. Aiff yr heol i'r chwith â chi i fyny dros y mynydd ac i Nelson. Ond, wrth fynd yn syth ymlaen, dewch at gylchdro'r gwasanaeth bysiau. Ac mae hwnnw ar drothwy'r "Four Terraces" fel y'u gelwir yn lleol.

Tai teras, fel y byddech yn disgwyl, sydd yno a rheiny wedi'u codi yn agos iawn i'w gilydd. Does fawr o ofod sbâr yno ac felly, flynyddoedd yn ôl, darparwyd rhandiroedd ("allotments" i chi a fi) ar eu cyfer. Ac mae'r rhandiroedd hyn i'w gweld ar y tir sydd ar ochr orllewinol y terasau rhyngddynt â'r heol sy'n arwain at Nelson.

Pan ddaeth mwy a mwy o bobol yn berchen ar geir ym mhym degau'r ganrif ddiwethaf roedd hi'n hanfodol cael garej - a hynny CYN nid WEDI prynu car. Pam? Hwyrach am fod ceir y cyfnod hwnnw yn fwy tueddol o rydi. Mae'r ffens weiren o flaen y garej yn y llun yn tystiolaethu na ddefnyddir yr adeilad bellach fel garej achos mae'r ffens yn rhwystro'r drysau rhag agor. Mae technoleg fwy diweddar yn ei gwneud hi'n bosib cadw ceir allan yn yr awyr agored heb iddynt rydi. Gallwch deithio drwy ystadau modern yr ardal a gweld pob garej sy'n rhan o'r tŷ wedi ei throï'n ystafell neu stordy.



Cofiaf am gymdogion yn y pum degau yn mynd i'r drafferth o godi garej, weithiau beth pellter o'u cartrefi, am fod yn rhaid gwneud hyn cyn prynu car. Ond un anhawster os adeiladwyd y garej drws nesaf i'r tŷ oedd bod y cyngor yn ystyried yr eiddo i fod yn "Tŷ a Garej" ac nid "Annedd- dŷ" yn unig, gan arwain at gynnydd yng ngwerth trethadwy'r cartref.

Ond roedd gŵr oeddwn i'n adnabod yn dda yn meddwl ei fod wedi dod o hyd i ffordd o osgoi talu'r cynnydd hwn. Wedi codi'r garej fe'i llanwodd â glo. Dylwn egluro mai'r arfer mewn pentref glofaol, fel ein un ni, oedd derbyn llwyth, un dunnell, o lo mewn lori. Byddai'r lori yn arllwys y glo ar y pafin a'n cyfrifoldeb ni wedyn oedd ei gario mewn whilber i'r sied lo. Roedd hyn yn achosi dipyn o anghyfleustra i'r sawl oedd yn byw mewn tŷ teras gan y golygai hyn gario'r glo, mewn bwcedi, drwy'r tŷ!

Sylwodd un o swyddogion y cyngor ar garej newydd Defi Edwards a churodd ar y drws i dynnu sylw'r perchennog at y ffaith fod statws ei eiddo wedi newid. "Pam?" gofynnodd hwnnw yn llawn diniweidrwydd. "Achos bod garej gyda chi!" Ond synnwyd y swyddog gan yr ateb, "Garej? Pa garej? Wela i ddim garej!" "Ond fan 'na, yn ymyl y tŷ," protestiodd y swyddog. "Ond nid garej yw honna," mynnodd Defi, fel petai'n siarad â rhyw blentyn bach oedd yn neilltuol o dwp, "sied lo yw hi!".

Doedd y swyddog, beth bynnag, ddim am ei gadael hi fan 'na ac meddai, "Garej yw honna. Mae gataiau dwbl yn arwain at ddrysau dwbl. Ac yn fwy na hynny, mae ffenest a drws sengl yn y cefn." Ond Doedd Mr Edwards ddim am ei gadael hi yno, chwaith. "Ond 'na beth yw sied lo," mynnodd. "Chi'n gweld, lle bo ni'n gorfod cario'r glo o'r pafin i'r hen sied, mae'r lori yn gallu bacio miwn i'r sied newydd hyn. Ni'n agor y drysau mawr ac mae'r lori yn diosg ei llwyth miwn i'r sied. Ni wedyn yn iwso'r drws cefn i fynd i nôl bwceded o lo yn ôl y galw." Roedd y swyddog y methu credu'i glustiau ond, beth bynnag am hynny, gyrrwyd llythyr at Defi Edwards yn ei hysbysu o gynnydd yn ei dreth cyngor.

Ond roedd un tric arall gan Defi i fyny'i lawes - aeth a'r mater i'r llys apêl. Nid yn unig mynd i'r llys ond, credwch neu beidio - ennill yr apêl! Ond does dim diweddglo hapus i'r stori oherwydd galwodd y swyddog heibio flwyddyn neu ddwy yn ddiweddarach. Dim ond gwraig Defi oedd adre ac meddai'r swyddog, "Car gyda chi, o's e, Mrs Edwards?" "O's," meddai Mrs Edwards yn llawn balchder. "A ble ry'ch chi'n cadw'r car 'te, Mrs Edwards?" "Wel yn y garej, wrth gwrs.....".

Bydden ni'n fodlon rhoi cyflog blwyddyn am fod yn gleren ar wal yn nhŷ'r Edwards' pan ddaeth Defi adre o'r gwaith y noson honno !

Ben Jones

Cymwynaswyr Cymru o'r Cymoedd 3:

Morgan Jones, AS – 1

Un o bleserau prin y misoedd diwethaf fu'r cyfle i fwynhau ein rhodfeydd a'n parciau – er enghraifft Parc



Morgan Jones yng Nghaerffili. Mae'r parc hwn yn agos at ganol y dre, ac yn boblogaidd gan ei thrigolion. Ond pwy oedd Morgan Jones ei hun? Mae cofeb fechan yn y parc sy'n nodi ei fod yn Aelod Seneddol, ac iddo gael ei benodi'n ysgrifennydd y Bwrdd Addysg ym 1924 ac eto ym 1929-31. A dyna'r cyfan o wybodaeth sydd am Morgan Jones yn y parc a enwyd ar ei ôl.

Felly dyma fi'n ceisio dod o hyd i ragor o wybodaeth am y dyn hwn, a chael anhawster wrth wneud hynny. Nid yw wedi ei gynnwys yn y *Bywgraffiadur*, man cychwyn fy ymchwiliadau. Ond trwy rym y We ddes i o hyd i lyfr cyfan amdano - *Morgan Jones: Man of Conscience* - a hynny gan Wayne David, AS presennol Caerffili. Cafodd Mr David gymorth teulu Morgan Jones wrth lunio'r gwaith, ac mae nifer o luniau teuluol yn cyfoethogi'r llyfr.

Trwy gyfrwng y llyfr hwn ces i wybod bod Morgan Jones wedi ei eni yn un o fythynnod y Rhos yng Ngelligaer ym 1885; iddo ennill ysgoloriaeth i Ysgol Lewis Pengam, a mynd ymlaen oddi yno i Brifysgol Reading. Wedi ei gymhwyso'n athro, daeth adre i ddysgu yn ysgol Gilfach Bargod. Roedd wedi ei fagu yn Fedyddiwr, ac roedd yn Gristion o argyhoeddiad a ddaeth yn bregethwr lleyg grymus a phoblogaidd. Fel llawer o'i gyfoedion, gwelodd y Blaid Lafur newydd fel cartref naturiol i anghydfurfiwr radical, ac ymaelododd â'r blaid honno ym 1908.

Dyn ifanc galluog a huawdl felly, ac un oedd ar dân i wasanaethu ei gyd-ddyn ac i wella byd pobl gyffredin. Roedd ganddo *"a burning desire to better the underdog"* yng ngeiriau un o'i gyd-fyfyrwyr. Nid yw'n rhyfedd iddo gael ei ethol yn gynghorydd lleol ym 1911.

Unwaith iddo gyrraedd y cyngor, roedd yn bosibl iddo ddechrau gweithredu i wella amodau byw yr ardal. Yn ystod ei fisoedd cyntaf fel cynghorydd tynnodd sylw at gyflwr gwael carthffosiaeth, yr angen i wella goleuadau stryd, cyflogau isel gweithwyr y cyngor, a'r *"filthy conditions of the railway carriages"*.

Ymgyrchodd hefyd dros sefydlu pwyllgor i ddelio gyda'r angen am dai safonol ond fforddiadwy. Yn Hydref 1914 atgoffodd y cyngor o gyflwr gwael y tai yn ardal y Bargod, a'r modd y byddai landlordiaid yn gwasgu pob dimai o rent allan o'u tenantiaid ond yn gwrthod gwario ar wella'r tai.

Pan sefydlwyd pwyllgor tai, Morgan Jones oedd ei gadeirydd, ac yn fuan iawn prynodd y cyngor dir er mwyn adeiladu tai safonol ym Mhontlotyn. Dros y blynnyddoedd nesaf codwyd tai cyngor ym Mhengam, Bedlinog, Fochriw, Deri, Threlewis ac ym 1921 dechreuwyd ar y gwaith o godi stad eang Heol Ddu yn y Bargod.

Ond rhwng 1914 a 1921 chwythodd corwynt y Rhyfel Byd Cyntaf ar draws y byd, a chwalwyd byd Morgan Jones hefyd. Heddychwr o argyhoeddiad ydoedd. Ymgyrchodd yn erbyn y rhyfel ei hun ac yn erbyn gorfodi gwasanaeth milwrol ar neb. Er iddo ddadlau ei achos yn gryf, dedfrydwyd ef i garchar ym 1916 - ac i lafur caled yn Wormwood Scrubs.



Dr Elin Jones

Cerrig Coffa Aneurin Bevan

Y llynedd, 2020, daethon ni i werthfawrogi ein GIG (NHS) yn fwy nag erioed.




Do, dathlwyd y Gwasanaeth Iechyd Genedlaethol yn ystod y seremoni a agorodd y Gemau Olympaidd yn Llundain yn 2012. Yn cymryd rhan yn y seremoni, o dan gyfarwyddyd Danny Boyle, roedd grŵp o nyrsys a oedd yn cynrychioli'r GIG i bedwar ban byd drwy'r darllediad.

Ond yn ystod 2020 gwelon ni ddigwyddiadau llawer pwysicach, pan oedd miloedd a miloedd o bobl yn sefyll ar y strydoedd, wythnos ar ôl wythnos, i gymeradwyo gwaith y GIG a'r rhai sy'n gweithio ynddo.

Sefydlwyd y GIG yn 1948, a dylen ni gydnabod bod y syniad wedi cael ei drafod gan drefniadau swyddogol am flynyddoedd yn y 1940au. Ond dyw dim ond trafod byth yn ddigon.

Roedd angen gwleidydd angerddol, gydag egni ac, yn bwysicaf, gwleidydd oedd yn medru darbwylllo'r werin, a gwthio'r dosbarth yn nerthol, tua phen y daith.

Aneurin Bevan oedd y gwleidydd hwnnw, ac mae sawl cofeb iddo fe yng Nghymru: mae'r gofeb agosaf i ni yn sefyll rhwng Tredegar a Glyn Ebwy. Mae'n werth mynd yno, ac mae e'n werth mynd ag ymwelwyr gyda chi, yn enwedig os nad ydyn nhw'n gwybod sut a pham i ni barhau i anrhydeddu Bevan.



Dyn o Dredegar oedd Aneurin


Bevan, ond cawr ac arwr o Gymru a'r Deyrnas Unedig hefyd. Mae ei orchest e, y Gwasanaeth Iechyd Genedlaethol, yn un o'r campau mwyaf yn ein hanes gwleidyddol, yn dal i fod yn ganolog i'n bywydau nawr. Gwelsom hyn, ac rydym yn dal i'w weld, yn ystod pandemic Covid 19.

Ar y ffordd rhwng Tredegar a Glyn Ebwy mae Cerrig Coffa Aneurin Bevan, lle bu Bevan yn annerch yr etholaeth a'r byd. Mae pedair carreg yno, yr un fwyaf sy'n cyfeirio at anerchiad Bevan, wedyn un

garreg am bob un o'r tair tre yn yr etholaeth, sef Glyn Ebwy, Tredegar a Rhymni.

A hefyd mae cerflun o Aneurin Bevan yng Nghaerdydd, yn y stryd yng nghanol y ddinas, ac mae portread o Bevan y tu mewn i adeilad y Senedd.

Rydyn ni'n anghofio'r rhan fwyaf o wleidyddion, ond bydd Aneurin Bevan yn cael ei gofio am byth.




I gyrraedd Cerrig Coffa Aneurin Bevan defnyddiwch y cod post NP23 6PL. Mae'r cerrig bron gyferbyn a mynedfa'r stad ddiwydiannol.

Kevyn Bodman

BETWS A'R BYD

Beth sy'n symbylu person i neilltuo ei holl fywyd a'i yrfa i achos cenedlaetholdeb? Yn achos yr Aelod Seneddol Elfyn Llwyd daw'r rheswm yn glir ar dudalennau cyntaf ei hunangofiant, 'Betws a'r Byd'. Yno mae'n



cofio ei dad, y diweddar Huw Meirion Hughes, yn tywys ef a'i chwaer Angharad i Dryweryn yn 1963. Ac yno mae'r tad, cyn-blismon a fu'n gynghorydd Plaid Cymru yng Nghonwy, yn datgan wrth ei blant, â deigr yn ei lygad, "Blant, beth bynnag wnewch chi, peidiwch byth ag anghofio hyn." Cytunodd Elfyn a chadwodd ei air i'w dad a'i genedl. A'r cyngor doeth arall a gafodd gan ei dad oedd, "os nad wyt ti'n gallu bod yn gryf, bydd gyfrwys!" Diddorol nodi hefyd fod Elfyn Llwyd o'r farn i gyflafan Mynydd Epynt adeg yr Ail Ryfel Byd achosi mwy o ddrwg i'r iaith Gymraeg na hyd yn oed Tryweryn.

Cymerwn yn ganiataol fod un a etholir yn enw'r blaid genedlaethol yn sicr o ymgymryd â materion Cymreig, tai haf, yr iaith, diweithdra, mewnfudo ac ati. Ond tra fo Elfyn yn driw i'r egwyddorion hyn, gwelwn wrth bori drwy'r llyfr, fod y cyfreithiwr a'r bargyfreithiwr hefyd yn un eangfrydig.

Gan ddechrau ar ei stepen drws ei hunan, Wrecsam. Mae'r sawl a fynnai ddiwygio system garcharu'r wlad yn dweud na ddylai carchar ddal mwy na 700 o garcharorion ac y dylid meithrin hunan-dyb dyn drwy roi llety iddo mewn cell ar ei ben ei hun. Bu galw, ers tro, am garchar yng Ngogledd Cymru er mwyn i deuluoedd allu cadw mewn cysylltiad â'r rhai a gaethiwyd. Mae hyn yn rhan o'r strategaeth i adfer drwg- weithredwyr. Ond anwybyddu'r holl argymhellion hyn wnaeth San Steffan gan adeiladu carchar i dros 2,000 â chelloedd ar gyfer dau neu dri. Bu Elfyn i wledydd Sgandinafia a'r Almaen a gweld pa mor oleuedig, a gwahanol i Brydain, oedd y carchardai yno. Yn un peth, mae swyddogion carchar yno yn derbyn tair blynedd o hyfforddiant. Yn y wlad hon - cânt dair wythnos! Ydy awdurdodau Prydain wir am wneud yn siŵr nad yw'r troseddwyr yn dychwelyd i garchar?

Yn ogystal â'i ymgyrchu ym meysydd cyfiawnder, bu'r awdur allan i fannau fel Chernobyl a Darfur yn y Swdan i weld drosto fe ei hun beth oedd yn digwydd yn y gwledydd hynny. Daeth i amlygrwydd, ynghyd ag Adam Price, drwy uchelgyhuddo Tony Blair am fynd i ryfel yn erbyn Irac. Bu allan yn y wlad honno a gweld drosto'i hun foethusrwydd Saddam - a'r moethusrwydd hwnnw i gyd o dan y ddaear. Felly, wrth i Brydain lansio cyrchoedd awyr yn erbyn y wlad, yr unig beth oedden nhw'n llwyddo i'w wneud oedd bomio'r bobol gyffredin! Ond prif ffocws yr ymgyrch yn erbyn Blair oedd bod hwnnw wedi cynllwynio gyda Bush i ymosod ar Irac er gwaetha'r ffaith iddynt fethu cael cefnogaeth y Cenhedloedd Unedig. Aeth Elfyn ac Adam ymlaen i frwydro am yr hawl i gael gweld y dogfenni oedd i fod i brofi fod gan Saddam Arfau Dinistriol (WMD). Arweiniodd hynny at archwiliad Chilcot a'r "Dodgy Dossier" fel y llysenwyd y ddogfennaeth.

Roedd yr uchod yn rhoi cip i'r darllenwr o sut mae'r llywodraeth yn Llundain yn gweithio (neu ddim yn gweithio!). Gyda hyn cawn eglurhad o'r hyn yw'r Cyngor Cyfrin (*Privy Council*). Nid pob Aelod Seneddol sy'n gallu hawlio'r teitl "Y Gwir Anrhydeddus", dim ond aelodau'r Cyngor Cyfrin. Mae'r ffaith fod Elfyn wedi'i ethol i blith yr *elite* hwn yn dystiolaeth o ba mor uchel ei barch yr oedd yn San Steffan. I ategu hyn cydnabuwyd ei allu a'i ymroddiad pan enillodd wobwr 'Aelod Seneddol y Flwyddyn' yn 2014.

Efallai mai'r gwaith arall a ddaeth ag ef i amlygrwydd oedd y ffaith mai ef oedd awdur y ddeddf a ddaeth yn gyfraith ar stelcian, gan lywio'r mesur drwy'r Senedd. Deddf oedd rhai yn meddwl nad oedd ei hangen ond cafwyd tystiolaeth bendant, wedi pasio'r ddeddf, mor bwysig y bu'r mesur hwn i nifer o ddioddefwyr. Derbyniodd gydnabyddiaeth am hyn ynghyd â'r ymgyrch gyfatebol i greu trosedd i wahardd rheolaeth gymhellol (*coercive control*). Mae'n ein hatgoffa hefyd fel mae'r llywodraeth Llundain wedi erydu hawliau pobol gyffredin i fynd i gyfraith yn erbyn busnesau mawr ac annhegwch. Mae'r llyfr yn werth ei ddarllen petai ond i ddeall oblygiadau'r mesurau hyn yn llawnach.

Dangosodd Aelod Seneddol Dwyfor Meirionydd o 1992 i 2015 mor eangfrydig oedd ei wleidyddiaeth hefyd drwy eiriol achosion milwyr Prydeinig a ddioddefodd drawma drwy ymladd, ac am iddynt orfod ymladd yn aml â chyfleusterau annigonol. Enillodd y wobwr fel 'Ymgyrchydd Gorau'r Flwyddyn' yn 2010 yn gydnabyddiaeth am ei ymgyrchu dros gyn-filwyr a'u teuluoedd.

Mynega ei werthfawrogiad o'r gefnogaeth a gafodd gan aelodau'r Blaid yn ei etholaeth yn ogystal a'i staff gweinyddol gan gynnwys Delyth Jewell, cyn-ddisgybl yn Ysgol Gyfun Cwm Rhymni, a enillodd y wobwr am ymchwilydd gorau San Steffan yn 2014, yn bennaf am ei gwaith ar y ddeddf stelcian. Hefyd, mae'n cydnabod cymorth parod Gwenllïan Griffiths, merch Gwyn a Mags Griffiths, Bryn Siriol, oedd yn Ymgyngorydd Materion Cyhoeddus ac yn Swyddog y Wasg "anhygoel o effeithiol a phroffesiynol yn Llundain". Nodir cyfraniad gŵr Gwenllïan, Alun Shurmer, hefyd.

Mae gen i dros ddeugain o gofiannau neu hanesion gwleidyddion ar fy silffoedd heb sôn am y rhai a fenthycwyd. Ond credaf mai 'Betws a'r Byd' Elfyn Llwyd yw un o'r goreuon os nad y gorau oll o'r rhain!

Ben Jones

DAN FYGYTHIAD

Dyma nawfed nofel John Alwyn Griffiths yn ymwneud â gwaith y Ditectif Sarjant Jeff Evans. Ac mae teitl hon, fel pob un o'r wyth arall yn dechrau gyda'r gair "Dan". Bu disgwyl mawr am hon gan aelodau Clwb Darllen Cwmni a hwyrach gan ddarllenwyr nofelau Cymraeg dros Gymru benbaladr.


Mae'r nofelau eraill yn dilyn hynt a helynt Jeff a'i gydweithwyr ond yn hyn y noferl hon nid ef yw'r prif gymeriad wrth iddo ef gamu i mewn i geisio datrys damwain oedd ond yn ymddangos yn amheus. Efallai na fyddai neb wedi amau mai damwain arweiniodd at farwolaeth Morgan Powell pan syrthiodd i mewn i bydew yn ei sied. Ond y ffaith fod y ditectif Sarjant yn adnabod y ffermwr ac, yn fwy arwyddocaol mab y ffermwr, a daniodd ei amheun.

Ychydig feddylion Jeff pan ddechreuodd dwrio i mewn i'r achos i ble fyddai'i ymholiadau yn ei arwain. Oherwydd mae'r stori yn mynd i mewn i isfyd creulon Birmingham rhyw ddeugain mlynedd yn ôl. A dilyn hynt merch ifanc a arweiniwyd i mewn i fywyd o drais mae'r llwybr. Mae yma ddwy stori yn rhedeg ochr yn ochr wrth i Jeff fynd ar ôl Tegid mab y ffermwr oherwydd bu'n amau hwnnw o gamddefnyddio arian y tad ar gyfer mentrau amheus. Drwy ddigwydd cyfarfod â gohebydd papur newydd daw'r ditectif ar draws ciwed sy'n mynnu symiau sylweddol o arian gan berchnogion parciau carafanau a gwyliau, drwy godi twrw a bygwth achosi difrod pellach i'w heiddo.

Mae tensiwn a disgwyliad yn rhedeg yn gryf drwy'r nofel nes ei bod yn anodd ei doddi i lawr cyn cwblhau darllen y 336 tudalen. Mae'r tensiwn ar ei gryfaf wrth i'r darllenwr weld y llinynnau hyn yn gorgyffwrdd yn iasol tuag at benllanw echrydus.

Bydd dim pwynt trafod y llyfr hwn yn ein cylch llyfryddol oherwydd hanfod y grŵp yw dadlau, ac mae fwy o flas ar y trafod pan fydd aelodau'n anghytuno â'i gilydd. Ond, fel gyda phob un o nofelau John Alwyn, fydd yna ddim anghytuno, dim ond pawb yn dweud cymaint maen nhw' wedi mwynhau ac yn ysu gyda'i gilydd am lyfr nesaf yr awdur talentog hwn.

Mary Jones



Teisen y Cynllun Siarad

Mae'r flwyddyn ryfedd hon wedi dod ag ambell fendith annisgwyl a hyfryd. Un ohonynt i fi yw cyfeillgarwch newydd, rhithwir, gydag Elizabeth, sy'n byw ymhell o Gymru, yn nhref hanesyddol Hatfield. Mae Elizabeth yn rhan o'r Cynllun Siarad, yn rhugl iawn yn y Gymraeg ac yn mwynhau'r cyfleoedd mae'r we yn eu cynnig i ymuno mewn gweithgareddau Cymraeg o bob math.

Byddwn yn cwrdd yn wythnosol, yn rhithwir wrth gwrs, ac mae'r ddwy ohonom wedi'n synnu o sylweddoli faint o ddiddordebau sydd gennym yn gyffredin. Un ohonynt yw coginio, ac rydym yn mwynhau cyfnewid ryseitiai. Mae rhai o drigolion Hatfield wedi cael cyfle i flasau teisen lap a dinca fala erbyn hyn – ac rwy newydd gael llwyddiant gyda theisen gwbl newydd i fi sy'n defnyddio cynhwysion cyffredin y cwpwrdd bwyd, er bod dau ohonynt yn bur annisgwyl.

Dyma chi deisen marmalêd a iogwrt felly – neu, i fi - “Teisen y Cynllun Siarad”!

Paratoi: Iwch a leiniwch tun torth (21.5cm x 11.5cm x 7cm), a chynheswch y ffwrn i 180C.

Cynhwysion:

100g margarin

100g siwgr

2 wy

150g can (blawd) plaen

$\frac{3}{4}$ llwy de powdwr codi

$\frac{3}{4}$ llwy de soda bicarbonad

50g iogwrt Groegaidd



200g marmalêd (yn ddelfrydol, marmalêd tri ffrwyth o Lidl, sydd ar gael yn Hatfield, mae'n debyg, ond nid yn Ystrad Mynach)

Dull: Cymysgwch y can, powdwr codi a'r bicarb mewn un bowlen. Curwch y margarin a'r siwgr gyda'i gilydd yn dda mewn powlen arall, ac yna ychwanegwch yr wyau am yn ail gyda'r cynhwysion sychion. Cymysgwch 125g o'r marmalêd gyda'r iogwrt, a phlygwch hynny i fewn i'r cymysgedd yn drwyadl. Arllwyswch y cymysgedd i'r tun.

Pobwch y deisen am ryw awr, ac yna cymysgwch weddill y marmalêd gydag ychydig o ddŵr, a'i basio trwy ogr. Rhowch yr hylif dros y deisen ac addurnwch hi gyda'r darnau croen sydd dros ben yn yr ogr.

Canlyniad: teisen fendigedig, a rheswm arall dros ymuno yn y Cynllun Siarad.

*

Gallwch chithau ymuno â chynllun Siarad i gynnig cyfleoedd i ddysgwyr ymarfer eu Cymraeg. Mae'r manylion ar gael oddi wrth Helen Morfudd Young, Coleg Gwent – cysylltwch â Helen.Morfydd@coleggwent.ac.uk, os ydych am wybod mwy, ymuno gyda'r Cynllun, gwneud ffrindiau newydd ymhlith ein dysgwyr brwd, rhoi hwb i'r iaith – a bwyta teisenod bendigedig!

Hen Draddodiadau'r Nadolig

Thema cyfarfod Zoom olaf 2020 Merched y Wawr Cwm Rhymni oedd 'Traddodiadau'r Nadolig.' Dr Elin Jones ddechreuodd y noson gyda chyflwyniad difyr a diddorol iawn am yr hen draddodiadau Cymreig. Hanes y Plygain, y gwasanaeth Nadolig traddodiadol a gynhelid yn y bore bach cyn y wawr, oedd man cychwyn ei thrafodaeth. Tarddiad y gair Plygain yn ôl rhai yw'r gair Lladin 'pullicantio', sef 'ar ganiad y ceiliog'. Mis Ionawr diwethaf, Elin oedd yn bennaf gyfrifol am geisio ailsefydlu traddodiad Y Plygain yn Eglwys Sant Catwg, Gelligaer, a gwasanaeth gwefreiddiol oedd e hefyd. Yn anffodus, ni fydd yn bosibl cynnal y gwasanaeth yn 2021 oherwydd Covid 19 ond mawr yw'r gobaith y bydd modd ailgydio yn yr awennau yn 2022. Dywedodd Elin fod y Plygain wedi'i gynnal yn Eglwys Sant Catwg yn Oes y Tuduriaid a Syr Huw Dafydd, curad yr eglwys, wedi cyfansoddi emynau tua 1520 i gofio geni'r Iesu.



Aeth Elin yn ei blaen i sôn am Y Fari Lwyd, traddodiad paganaidd a'i wreiddiau'n anhysbys, ond er hynny yn



Yr Hen Fari

draddodiad sy wedi goroesi ym mhentref Llangynwyd, Maesteg. Y ddefod oedd i griw o ddynion, un ohonyn nhw'n gwisgo penglog ceffyl wedi'i addurno â rhubanau a chlychau, fynd o dŷ i dŷ yn canu cyfres o benillion. Roedd hi'n rhyw fath o gystadleuaeth farddonol â'r person yr ochr arall i'r drws yn eu hateb. Y nod oedd ennill mynediad i'r tŷ a chael diod ac ychydig o fwyd ac efallai arian. Codai'r 'Fari Lwyd' ofn mawr ar blant y tŷ fel arfer a hithau'n eu cwrso a'u cnoi. Ar y cyfan, penillion byrfyfyr oedden nhw ond adroddodd Elin hanes hen fenyw yn ardal Llangynwyd yn gweithio ar ei hatebion drwy gydol y flwyddyn, rhai yn fachog ac yn gas, er mwyn eu maeddu! Difyr hefyd oedd hanes cyfnither Elin yn cael te yng nghartref Cadrawd, awdur y gyfrol 'Tir Iarll' a darganfod ei fod yn cadw penglog 'y Fari Lwyd' tu ôl i lenni'r parlwr! Mae'n bosibl

mai ffurf ar y gair Saesneg 'mare', caseg, yw'r enw 'Mari' neu 'mare', fel yn 'nightmare'. Roedd ceffylau'n bwysig iawn yn y traddodiadau Celtaidd a thynnodd Elin ein sylw at Epona, duwies ceffylau, ac at Rhiannon ar ei cheffyl gwyn hud yng nghainc gyntaf Y Mabinogi.

Traddodiad arall oedd canu carolau a hel calennig o dŷ i dŷ. Ond rhaid cofio mai allan o gyfnodau tywyll a phryderus ddaeth nifer helaeth o'n traddodiadau. Roedd y werin bobl yn poeni am galedi'r Gaeaf a bwyd yn brin iawn cyn y cynhaeaf nesaf. Casglu arian, diod, bwyd a thanwydd i'w cadw'n fyw tan y Gwanwyn oedd eu prif nod.



Y Fari Newydd

Wedyn , daeth tro ein haelodau i rannu eu traddodiadau Nadolig nhw - ‘Nadolig’ i rai ohonom ni, ‘Y Gwyliau’ i eraill. Rhannwyd lluo o storïau difyr am Nadolig ein plentyndod - anrhegion, bwyd, addurniadau, parti a drama Nadolig.

Roedd hi’n arfer gan bawb fynychu’r capel neu’r eglwys fore’r Nadolig ac wedyn mwynhau cinio a chwarae gyda’n hanrhegion. Ond diwrnod prysur iawn gafodd Gaynor Williams a hithau’n cystadlu yn Eisteddfod y capel ar ôl cinio ac wedyn yn ôl i’r capel gyda’r hwyr.

A druan â Dorothy Morgan hefyd. Roedd aelodau o’i theulu yn canu offerynnau mewn dau fand o gwmpas Ystalyfera bob bore Nadolig. Felly cinio hwyr oedd cinio’r Nadolig yng nghartref Dorothy. A blynnyddoedd wedyn roedd ei mab yn aelod o fand Bedwas a berfformiai bob bore Nadolig. Cinio hwyr eto!

Roedd rhaid addurno’r tŷ neu gosod ‘y trimmings’, chwedl Anwen Hill. Byddai rhai yn addurno’r tŷ wythnos neu ddwy cyn dydd Nadolig ac eraill yn aros tan Noswyl Nadolig ac yn eu tynnu i lawr ar Nos Ystwyth, sef Ionawr y 6ed. A beth am y ‘*Chinese Lanterns*’, yr hanner cylchoedd papur a agorai allan yn beli lliwgar a’r cadwyni papur a hongiai o gornel i gornel? Canolbwynt y tŷ oedd y goeden Nadolig – pinwydden gan y rhan fwyaf ond celyn gan y rheina a fagwyd ar fferm.

Prin iawn oedd ein hanrhegion ond roedden ni’n eu gwerthfawrogi’n fawr – anrhegion bach yn yr hosan Nadolig ac afal, *tangerine* a chnau yn ei throed ac un neu ddau o anrhegion ‘mawr’ o dan y goeden megis doli , gêm ford ac wrth gwrs llyfr. Bob blwyddyn, edrychai Mo Potter ymlaen at gael llyfr mawr *Rupert the Bear*!

Cofiodd Siân Griffiths iddi gael pram gan Siôn Corn a mynd drws nesaf i’w ddangos i’r gymdoges. Roedd bron i’r gymdoges adael y gath ma’s o’r cwd wrth iddi ofyn i pam yn y byd oedd Siân wedi dod â’r pram yn ôl i’w thŷ a hithau wedi’i gadw yno ers wythnosau!



Anrheg arbennig iawn gafodd Elin un flwyddyn oedd cath Siamaidd hardd ond yn anffodus , er harddwch y creadur, mi roedd hi’n hoffi cnoi a chrafu a methodd yn llwyr sefydlu perthynas dda â mam-gu Elin.

A dyma ni’n troi at y bwyd. Buodd ein mamau yn paratoui at y Nadolig wythnosau ynghynt. Roedd mam Lynda Charnell White yn gwneud tair cacen Nadolig bob blwyddyn – un gydag eisin, un i’w phrofi ac un i’w bwyta. Defod arall oedd troi’r pwddin cyn ei roi yn y popty a gwneud dymuniad wrth droi’r llwy bren. Mae’n debyg mai achlysur mawr oedd hwnnw yng

nghymoedd y De a chymdogion yn ymweld â thai ei gilydd ar ‘*Stir up Sunday*’.

Tynnu’r taffi neu’r cyflaith? Na dim rhagor. Rhaid gofalu am ein dannedd erbyn hyn!


Ond caed hefyd elfennau mwy difrifol. Trafodwyd defod ‘Hela’r Dryw’ a’i chysylltiadau â marwolaeth. Soniodd Ann Walker am berchennog Stâd Y Faenol yn cloi giât Chwarel Dinorwic dros gyfnod y Nadolig a doedd dim modd i’r pentrefwyr fynd mewn nac allan o’r pentref yn eu ceir. Roedd rhaid iddyn nhw eu gadael yr ochr arall i’r giât. Trahauster ar ei nawfed!

Noson i’w chofio, noson llawn hiraeth a noson llawn chwerthin. Ac yng ngeiriau Wilma ar WhatsApp wedi’r cyfarfod, ‘Diolch i Elin am ein sbarduno i gofio am y ffordd y gwnaethon ni ddathlu’r Nadolig gyda’n rhieni.’

Caroline Davies

"Lost in Translation"

Bu tipyn o ymgyrch hyd at ganol y ganrif o'r blaen i geisio meithrin Cymraeg mwy pur a hynny drwy fathu termau cwbl Gymraeg yn hytrach na Chymreigeiddio geiriau Saesneg. Ond gwelwyd fod Cymry Cymraeg yn barotach i ddefnyddio termau oedd yn dod yn fwy naturiol iddynt.



Cyn dyfodiad yr Eisteddfod Genedlaethol i Ddyffryn Aman yn ystod y ddau ddegau, enw'r brif dref oedd Cross Inn ond teimlai trefnyddion y Genedlaethol fod angen gwella ar hyn gan fynnu taw "Rhydaman" oedd y ffurf gywir. Ond er mai ffurf gywir ddefnyddiai'r Cymry lleol ar Gastell Nedd, Abertawe ac ati, glynu gwnaethant i "Ammanford" yn y pen draw. Yn yr un modd roedd yr awdurdodau am alw Ebbw Vale yn "Glyn Ebwy" ar gyfer ymweliad y brifwyl yno yn 1958. Ond glynodd Cymry Cymraeg Blaenau'r Cymoedd, mewn mannau fel Rhymni, at yr hen ffurf, "Pen y Cae". Mae'n amlwg na ellir gorfodi newidiadau ar bobol! A bu cryn grafu pen pan enillodd Robat Powel Goron y Rhyl yn 1985 gan ddefnyddio Pen y Cae, hen enw ei dref enedigol, yn enw barddol.

Bu sawl enghraifft o fathu geiriau artiffisial yn ystod y ganrif a fu, fel "heddwas" neu "heddgidwad". Ond "plisman" a orfu ar dafod y werin. Ac eto defnyddir y term "heddlu" yn ddigon rhwydd erbyn heddi. Beth wnewch chi o'r Gymraeg "gwneud" hyn, a faint ohonoch sydd yn cofio'r rhain erbyn hyn?

Chwaraedy - theatr, teledydd/ telewele = teledu, rhingyll - sergeant, ysgrifell = fountain pen, ystryd = street, troedlath = pedal, oriawr/ awrlais = wats/cloc diwyfr = wireless, llawffon - baton, hysbyslen = poster, modurdy = garej

Bu aml i stori, flynyddoedd yn ôl, am bobol ifanc yn mynd bant i goleg neu brifysgol ac yn dysgu siarad Cymraeg mwy safonol neu mwy "posh"! Ac wrth ddod adref am wyliau yn hoffi manteisio ar bob cyfle i ddangos mor glyfar oedden nhw o'u cymharu â'r werin gyffredin. Roedd un ferch ifanc mewn siop yn Rhydaman yn fwy na pharod i ddelio â'r gwybodusion hyn. Adroddwyd am berson yn dychwelyd o Loegr ac yn mynd i'r siop i ofyn am y "Guardian" gan ddisgwyl cael cynnig y Carmarthen Guardian ond fel hyn aeth hi wrth iddo ofyn am ei Guardian. "Beth chi'n moyn?" meddai'r ferch y tu ôl i'r cownter, "y Manchester Guardian neu'r Carmarthen Guardian?" A dyna fe wedi ei ddodi yn ei le!



Tua'r un adeg roedd rhywun a thamaid bach o addysg wedi dod o hyd i'r frawddeg, "Mae blwch o fflachiau yn llogell fy llodrau." Doedd dim llawer o ddewis "fflachiau" yn y siopau tan bum degau'r ganrif o'r blaen, y dewis oedd rhwng "Swan", "Pioneer" neu "England's Glory".



Ac felly, dyma un hollwybodol yn galw yn y siop a gofyn a gai "flwch o fflachiau" yn hyderus yn y wybodaeth na fyddai'r ferch y tu ôl i'r cownter yn gyfarwydd â'r term. Ond roedd hi'n fwy na pharod ar ei gyfer gyda'r ateb, "Cewch syr, beth hoffech chi, Yr Alarch, Yr Arloeswr neu Ogoniant Lloegr?" Digon i gau ceg unrhyw un â phen rhy fawr!

Roedd gan lowyr y cymoedd ddywediad am y rhai oedd wedi cael rhywfaint o addysg ond efallai'n brin o synnwyr cyffredin. Y dywediad oedd: "Rho addysg i ddyn twp a'r unig beth wyt ti'n gwneud yw ei wneud yn dalentog o dwp."

O.N. Ydy hi'n iawn mai matsis "England's Glory" a ddefnyddiwyd i losgi tai haf yn ystod ymgyrch ysaith a'r wyth degau ?!!

Ben Jones

Y Fronfraith, Anti Hilda a Fi

Ar fy nhaith foreol ddoe roeddwn i wedi mynd â fy mheiriant recordio efo fi. Mae cymaint o adar yn canu yn ystod yr awr cyn y wawr ac mae'n gyfle da i recordio cyn i'r holl geir ddechrau llenwi'r ffyrdd. Meddyliais mai dim ond pwyso'r botwm oedd rhaid ond nad oeddwn wedi gosod y lefelau, felly doedd dim un o'r lleisiau melys wedi cael ei ddal. Er mwyn paratoi am gael ail gyfle fe wnes i



Anti Hilda a Fi

eistedd yn yr ardd i baratoi'r peiriant er mwyn gwneud ail ymdrech heddiw. Doedd dim llawer o adar yn canu ar y pryd ond digon i mi wneud yn siŵr bod popeth wedi cael ei osod yn iawn. Wrth bwysu'r botwm i wrando ar y canlyniadau, nid yr adar oedd yn canu ond Anti Hilda yn siarad! Tair blynedd ynghynt roeddwn i wedi mynd i'r gogledd yn y campyrfan ac yn ystod yr ymweliad wedi galw i weld Anti Hilda efo Gwylan, fy nghyfnither. Heblaw am y pleser o weld Anti Hilda roedden ni'n gobeithio recordio sgwrs.

Fe wnes i osod y meicroffon ar y bwrdd, pwyso'r botwm a ffwrdd â ni. Siaradon ni am seiclo a hithau'n sôn am yr amser wnaeth hi ac Anti May, a oedd yn hŷn na hi, seiclo o Ddolgellau'r holl ffordd i Gymoedd y De. Aros mewn Youth Hostels oedden nhw. Roedd Anti May yn hŷn ac yn gryfach ond mi roedd hi'n aros ar ben yr elltydd er mwyn i Anti Hilda dal i fyny, ond wedyn mynd ymlaen yn syth ar ei thaith! Doedd Anti Hilda ddim yn cael cyfle i gael ei gwynt yn ôl! Aeth tair o'r chwiorydd i seiclo yn ardal Llŷn hefyd. Dyna le roedden nhw'n edmygu harddwch y wlad o'u cwrpas ac un yn codi ei braich i dynnu sylw at safle'r ysgol bomio. Collodd ei chymbwysedd a syrthio yn erbyn y chwaer ar y chwith, hithau'n taro'r drydedd chwaer a'r tair yn glanio yn un pentwr ar y llawr. A pham bod rhaid mynd mor bell, dim ond i chwarae dominos, dwedwch? Wrth gwrs doedd y ffyrdd ddim mor brysur ag heddiw ond sut oedd eu cyflwr? Gyda llaw roedd wyth chwaer, druan o Taid ynte!

Wedyn wrth i mi eistedd yn yr ardd yn gwrandao ar hyn sylwais ar fronfraith yn crwydro o dan y coed afalau, mae'r adar yn hoff iawn o'r darn yna - llawer o fwyd blasus! Roedd hi'n hapus ei byd yn chwilota a phob hyn a hyn yn aros i syllu arnaf. Y ddau ohonom yn fodlon iawn i rannu'r ardd.

Gofynnodd Gwylan i'w mam a oedd hi'n cofio'r amser aethon nhw i aros yn Stratford a mynd i theatr yr RSC. Oedd, mi oedd. A oedd hi'n cofio mynd i'r theatr arall 'The Other Place' i weld y ddrama "Gardd Eden?" gofynnodd Gwylan. Oedd mi oedd a wnaeth hi ychwanegu efo cyffro "and they were all nude!" Dim ond ar y llwyfan wrth gwrs, roedd y gynulleidfa yn gymharol barchus. Wedi i mi glywed hi'n dweud hyn syrthiodd y recorder oddi ar fy nglin a throi ei hun i ffwrdd. Codais fy mhen i weld y fronfraith yn heglu hi o'na efo'i hadenydd yn dynn dros ei chlustiau mewn syndod.

Does dim ffordd i wneud 'fast forward' ar y recorder ac roedd hyn wedi digwydd awr i mewn i'r sgwrs felly nad ydw i'n cofio mwy. Ond gan fod y straeon gorau i gyd yn gorffen efo 'cliffhanger' mi wna i adael popeth yn fanna.


Hwyl fawr i chi, a'ch dychymyg!



Y Fronfraith

Rob Evans

Colofn Dafydd Isgwyn



Ei dweud hi a wnaeth Gwytrosydd,
awdur Calon Lân, yn ei englyn
buddugol, Rhymni 1899:

Y bêl droed yw Baal y dre – neu eilyn
Anwylaf y pentre':
A'r ddelw yw Duw o'i le
A'i eglwys wna yn wagle!

Ar ddechrau'r hen ganrif fe enillodd Morris Edwards,
Llanuwchllyn, wobwr am ei englyn yn yr eisteddfod leol.
Condemniodd yntau'r gêm.

Anwar gamp ddisynnwyr i gyd – ddena
Ddynion ati'n ynydd:
Asynnaidd hil dros ennyd
Drwy salw bêl, dry sylw byd.

Fe weithiodd Rhyddoniau Aberpennar, englyn i'r bêl
droed a'i gyhoeddi yn 1903:

Och! Y bêl droed doed y dydd – na welir
Mae'r eilyn ar ddolydd;
Ei hanes erch mewn gwaed sydd,
Ac i Walia mae'n g'wilydd.

Yn ei gyfrol, "Ceinion Cynghanedd", a gyhoeddwyd yn
1906 cyhoeddodd R. Ingram, Bedlinog, ei englyn i'r bêl
droed:

Caria ymaith megis corwynt - yn gaeth
Y gwŷr heb rym ynddynt
Wna'r bêl – ond wedi'r helynt
Y wlad geir yn erlid gwynt.

Ofn yr oedd a fynegwyd gan yr englynwyr uchod gan
iddynt weld y bêl droed yn bwgwth ceidwadaeth eu
ffordd o fyw. Ymhen amser daeth y gêm yn rhan o fywyd
y Cymry. Oni fu'r Parchedig Llew Hughes B.A., ciwrad
eglwys y Santes Fair, Porthaethwy, Sir Fôn, yn aelod o'r
tîm lleol llwyddiannus tymor 1929- 30. Mae Moi Parri yn
reit agos i'w le yn ei englyn, " Y Gêm Bêl Droed":

Hon yw crefydd y cryfion – gan na fu
Ac ni fydd gyfeillion
Ddaeargred ba fydd hirgrwn
I bylu grym y bêl gron.

A oes enw mwy rhamantus ar bentref yng
Nghwm Rhymni na Fleur de Lys? Mae'r enw yn
cysylltu fy mro fabwysiedig â bro fy mebyd yn
Sir Fôn. Ar ben y seddau yn eglwys Credifael
Pen Mynydd cerfiwyd y blodyn Fleur de Lys i'n
hatgoffa o gysylltiad Owain Tudur (1400-61),
taid Harri'r VII a'r fro. Priododd ef weddw
Harri'r V, Katherine, merch Siarl VI Ffrainc. Y
Fleur de Lys, blodyn bywyd oedd symbol
herodrol teuluoedd brenhinol Ffrainc.

"Rhoddwyd yr enw i'r pentref pedair canrif yn
ôl gan Hiwgenotiaid o Ffrainc a oedd wedi ffoi
o'r erledigaeth grefyddol yn eu gwlad,"
esboniodd David Thomas, awdur "Enwau
Lleoedd ym Mwrdeistref Sirol Caerffili" (2014).

O ddweud yr enw Fleur de Lys, mae rhywun yn
clywed yr archdderwydd Dyfed yn y
Genedlaethol ym Mhenbedw, dydd Iau'r 6ed o
Fedi 1917 yn galw ffugenw'r bardd buddugol a
ni safodd neb. Roedd y bardd buddugol, Hedd
Wyn, wedi'i ladd ym mrwydr Cefn Pilckem,
ddydd Mawrth 21ain o Orffennaf, bum wythnos
yn gynt. Yn ei englyn, "Ystyriwch.....", mae
Dafydd Wyn Jones, Bro Ddyfi, yn ein hannog i
ystyried y blodau sy'n gysylltiedig â'r Rhyfel
Mawr:

Oes yn wir mae gwers i ni – euogion
Yn nhegwch y lili,
Yn aberth drud y pabi
Yn ffoli'r dlos Fleur de Lis.

O ddweud y flwyddyn 1917 mae rhywun yn
cofio englyn Emyr Lewis yn Ymryson y Beirdd yn
yr Wyddgrug 2007:

Teilyngdod a neb yn codi wedyn
A'r Gadair yn drewi
O waed a mwg bwledi
Unwaith yn ein Pabell ni.

Wrth sôn am englyn ac 1917 daw i'r co' y ffaith
mai Alfa (1875-1931) enillodd ar yr englyn y
flwyddyn honno. Ordeiniwyd ef yn weinidog
gyda'r Annibynwyr yn ardal Caerffili 1900. Erbyn
dechrau'r Rhyfel Mawr roedd ef wedi
dychwelyd i'w hen fro yng Nghwm Tawe.

Colofn y Dysgwyr

Blwyddyn Newydd Dda! Rwy'n siwr bod pawb yn edrych ymlaen at amser gwell yn 2021.

Mae gyda ni draddodiadau arbennig i ddathlu'r Flwyddyn Newydd yng Nghymru. Ydych chi wedi clywed am hel calennig? Roedd pobl yn arfer mynd o gwmpas i ganu tu allan i dai eu cymdogion am hanner nos ar Nos Galan a bydden nhw'n cael arian neu 'Calennig' am wneud.

Y bore wedyn, byddai plant yr ardal yn gwneud yr un peth. Roedd rhai pobl yn cael arian newydd o'r banc gyda dyddiad y flwyddyn honno i'w roi i'r plant. Mae llawer o ganeuon gwahanol ar gyfer hel calennig a dyma un:

Blwyddyn Newydd Dda i chi,
Ac i bawb sydd yn y tŷ,
Dyna yw'n dymuniad ni,
Blwyddyn Newydd Dda.

Wedyn mai traddodiad y Fari Lwyd, sy'n digwydd rywbryd rhwng y Nadolig a'r Calan. Mae hwn yn arfer hen iawn iawn sy wedi goroesi mewn ardaloedd fel Llantrisant a'r Bontfaen ac mewn rhannau o Went.

Penglog ceffyl ar bolyn yw'r Fari Lwyd, wedi ei addurno â rhubannau. Mae pobl yn cario'r Fari Lwyd i lawr y stryd ac yn canu tu allan i'r tai. Wedyn maen nhw'n mynd at dafarn fel arfer ac yn canu penillion arbennig tu allan i'r drws yn gofyn am gael dod i mewn. Mae pobl tu mewn i'r dafarn yn canu ateb, ac yn gwrthod agor y drws. Mae'r ddeialog yn mynd ymlaen am beth amser ond yn y diwedd mae'r drws yn agor a phawb yn mwynhau bwyd a diod yn y dafarn.

traddodiadau arbennig : special traditions *hel : to collect*

cymdogion : neighbours *Nos Galan : New Year's Eve*

dyddiad y flwyddyn honno: that year's date

caneuon : songs *arfer: custom* *wedi goroesi : has survived* *Y Bontfaen : Cowbridge*

penglog ceffyl : a horse's skull *ar bolyn : on a pole* *addurno : to decorate* *rhubannau: ribbons* *penillion*

arbennig: special verses *gwrthod : to refuse* *am beth amser : for some time*



Ann Lewis

Sadwrn Siarad

Sadwrn Seiber

16.01.21

Dwy sesiwn
Bore **10-12** a Phrynhawn **1-3**

Dewch i gwrdd â dysgwyr eraill ac ymarfer eich Cymraeg dros Zoom. Cyfle gwych i adolygu patrymau blaenorol ac ymestyn eich sgiliau iaith mewn awyrgylch anffurfiol. Yn addas ar gyfer pob lefel.

Two sessions
Morning **10-12** and Afternoon **1-3**

Come and meet other learners and practise your Welsh over Zoom.

A great opportunity to review previous patterns and extend your language skills in an informal atmosphere.


Am ddim | FREE

dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru
Gwent

Llyfr Newydd Anne Gwynne

Roedd Anne Gwynne yn ysgrifennu colofn am deithiau maes Cymdeithas Edward Llwyd ym mhapurau bro Y Ddolen a'r Barcud, yn ardal Tregaron. Nid dim ond pob hyn a hyn ond bron yn ddi-dor rhwng 2004 a 2018. Dros y flwyddyn ddiwethaf mae hi wedi bod yn brysur yn taflu ei llygaid drostyn nhw unwaith eto. Mae detholiad o 38 wedi dod at ei gilydd i greu cyfrol fach hwylus gyda lluniau braf a hanesion o rai o lecynnau braf Sir Ceredigion a thu hwnt.

Mae hi ar werth yn eich siopau lleol am £7.95 neu oddi wrthi hi, Anne Gwynne ar 01794 298995. Rhennir unrhyw elw rhwng Cymdeithas Edward Llwyd, Ambiwylans Awyr Cymru ac Adran Cemothapi, Ysbyty Bronglais.



Wnewch chi nodi mai ein cyfeiriad ebost newydd yw

benamarycwmni@yahoo.com

PWYLLGOR a SWYDDOGION

Cadeirydd: Robert Dutt

Ysgrifennydd Cofnodion: Ann Lewis

Trysorydd: Eyron Thomas e.thomas119@btinternet.com

Golygydd: Ben Jones benamarycwmni@yahoo.com 02920 862428 07891916046

Ysgrifennydd: Marian Fairclough faircloughmarian@gmail.com 02920885151

Dosbarthu a Golygydd Lluniau: Mary Jones

Y Pwyllgor: Eirlys Thomas, Gareth W. Williams, Dilys Williams,

Cynorthwy-ydd: Jan Penney

Hysbysebu: Bethan Ollerton Jones, Menter Iaith **Gweplyfr/ Facebook:**  Papur Bro Cwmni

Gwefan: Menter Iaith Sir Caerffili.cymru/

Cwmni 

e-bost: Golygydd@papurecwmni.cymru benamarycwmni@yahoo.com



*Ariennir yn
rhannol gan
Lywodraeth
Cymru*